TACTEG
GWYDDONIAETH


# CWESTIYNAU CWIS:
## Bioleg - Celloedd yn byw: L5-6

1: Gorffenna'r brawddegau gan ddefnyddio'r saith nodwedd ganlynol o bethau byw.
Dewisa’r geiriau cywir i’w rhoi yn y bylchau.

**Tyfu**
**Resbiradu**
**Fod yn sensitif**
**Atgenhedlu**
**Ysgarthu**
**Maethiad**
**Symud**

Rhaid i bob organeb byw gyflawni saith proses er mwyn byw. Mae popeth byw yn cael maeth trwy'r broses o'r enw _______________. Rhaid iddyn nhw gael egni o'u bwyd trwy'r broses ______________ . Maen nhw'n cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff trwy broses o'r enw ______________. Mae popeth byw yn dueddol o fynd yn fwy o ran maint ac yn fwy cymhleth. Yr enw ar y broses hon yw ______________ . Maen nhw'n gallu ymateb i'w hamgylchedd trwy ____________. Dydyn nhw ddim yn aros yn llonydd, maen nhw'n ______________. Mae gan bopeth byw gylch bywyd a byddan nhw'n marw yn y pen draw. Mae cenhedlaeth newydd o organebau yn cael eu cynhyrchu trwy'r broses o'r enw _____________.

2: Edrycha ar y diagramau o gell planhigyn a chell anifail.
O'r lluniau, enwa dair nodwedd sy'n gyffredin iddynt.



☐ cellbilen

☐ cnewyllyn

☐ cytoplasm

☐ cloroplast

☐ cellfur


©BBC


# ATEBION CWIS:
## Bioleg - Celloedd yn byw: L5-6

1: Gorffenna'r brawddegau gan ddefnyddio'r saith nodwedd ganlynol o bethau byw.
Dewisa’r geiriau cywir i’w rhoi yn y bylchau.

**Tyfu**
**Resbiradu**
**Fod yn sensitif**
**Atgenhedlu**
**Ysgarthu**
**Maethiad**
**Symud**

Rhaid i bob organeb byw gyflawni saith proses er mwyn byw. Mae popeth byw yn cael maeth trwy'r broses o'r enw **maethiad** . Rhaid iddyn nhw gael egni o'u bwyd trwy'r broses **resbiradu** . Maen nhw'n cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff trwy broses o'r enw **ysgarthu** . Mae popeth byw yn dueddol o fynd yn fwy o ran maint ac yn fwy cymhleth. Yr enw ar y broses hon yw **tyfu** . Maen nhw'n gallu ymateb i'w hamgylchedd trwy **fod yn sensitif** . Dydyn nhw ddim yn aros yn llonydd, maen nhw'n **symud** . Mae gan bopeth byw gylch bywyd a byddan nhw'n marw yn y pen draw. Mae cenhedlaeth newydd o organebau yn cael eu cynhyrchu trwy'r broses o'r enw **atgenhedlu** .

2: Edrycha ar y diagramau o gell planhigyn a chell anifail.
O'r lluniau, enwa dair nodwedd sy'n gyffredin iddynt.



☑ cellbilen

☑ cnewyllyn

☑ cytoplasm

☐ cloroplast

☐ cellfur


©BBC